PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 156 | Rhif 11 | Mawrth 16, 2023 | 50c.

## DIM LLE I FFOI?

Mae pawb yn gyfarwydd â'r hanes am Joseff, Mair a'r plentyn Iesu yn gorfod gadael eu cartref ym Methlehem a ffoi i'r Aifft am fod Herod am ladd yr un oedd 'newydd gael ei eni yn frenin yr Iddewon.' (Math. 2:13–23) Oni bai iddynt ffoi i wlad arall, mae'n debyg y byddai Iesu ymhlith y bechgyn bach a laddwyd ym Methlehem, a dyna fyddai diwedd y stori!

Mae ysbryd Herod ar waith o hyd mewn sawl gwlad heddiw, a phobl yn dal i orfod ffoi o'u cartrefi i osgoi erledigaeth greulon. Mae'n ffaith frawychus bod 0.8% o bobl y byd yn ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches, yn ôl Asiantaeth Ffoaduriaid y Cenhedloedd Unedig (UNHCR). Mae cynnydd o 42,500 yn y niferoedd *bob dydd*, sy'n digwydd bod yr un faint â'r nifer sy'n mentro'u bywydau trwy groesi'r Sianel i Brydain mewn cychod bychain *bob blwyddyn*.

### Datganiad ymfflamychol

Maen nhw ymhlith yr 89,000 wnaeth gais am loches ym Mhrydain y llynedd. I'w roi mewn cyd-destun rhyngwladol, mae 15 o wledydd eraill Ewrop wedi derbyn mwy o ffoaduriaid a cheiswyr lloches na Phrydain. Mae hynny'n gwneud nonsens o ddatganiad yr Ysgrifennydd Cartref, Suella Braverman, a ddywedodd: 'Mae 100 miliwn o bobl ledled y byd a allai gael hawl i loches o dan ein cyfreithiau presennol. Gadewch i ni fod yn glir. Maen nhw'n dod yma' Cafodd Ms Braverman ei beirniadu'n hallt am wneud y fath ddatganiad ymfflamychol, a allai gorddi casineb yn erbyn ffoaduriaid.

### Torri'r Ddeddf Hawliau Dynol

Mae Llywodraeth San Steffan am newid y gyfraith i rwystro'r cychod bach rhag glanio yn Lloegr. Byddai'r bobl sydd yn y cychod hynny'n cael eu hanfon yn ôl i'w gwledydd eu hunain neu i Rwanda. Fe gyfaddefodd Ms Braverman y gallai'r llywodraeth dorri'r Ddeddf Hawliau Dynol drwy fethu â chydymffurfio â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Ond ni fydd hynny'n eu rhwystro.



*Ceiswyr lloches yn gadael cwch ym Mhorthladd Dwfr*

## Dydd Gŵyl Dewi agored yng Nghapel y Nant

Bu Dydd Gŵyl Dewi eleni yn ddiwrnod llawn a llawen yng Nghapel y Nant, Clydach pan agorwyd drysau'r capel a'r Neuadd i'r gymuned. Bwriad y dydd oedd estyn croeso a dangos gwaith yr eglwys, gan wahodd trigolion lleol i ddod i mewn a mwynhau paned a sgwrs mewn awyrgylch hamddenol a chynnes.

Roedd grwpiau gwahanol wedi paratoi arddangosfeydd hardd: dangoswyd ymdrechion ein grŵp Eglwys a Chymuned i gefnogi elusennau lleol a chenedlaethol, gweithgarwch y Chwaeroliaeth ac arddangosfa drawiadol y dosbarth gwnïo a'u cynnyrch – yn faneri, clustogau a bagiau wedi'u pwytho'n gain a lliwgar.





### Beiblau a mwy

Un o'r arddangosfeydd canolog oedd casgliad o lyfrau defosiynol, a'r ystod yn eang – o lungopi o gyfieithiad gwreiddiol Salesbury o'r *Llyfr Gweddi Gyffredin* i'r *Bible in Cockney* difyr a doniol. Ymhlith y cyfrolau niferus eraill roedd argraffiad

*parhad ar dudalen 2*

# Dydd Gŵyl Dewi agored yng Nghapel y Nant – *parhad*

cyntaf Beibl Peter Williams, *Mynegair i'r Beibl Cymraeg Newydd*, *beibl.net i Bobl Ifanc* a'r *Women's Bible,* sef y Beibl o safbwynt y ferch. Roedd arddangosfa gynhwysfawr gan yr Eglwys Fethodistaidd, sy'n rhannu'r neuadd gyda'r Annibynwyr, a chafwyd presenoldeb gan asiantaethau sy'n gysylltiedig â Chapel y Nant: Merched y Wawr, eglwys eco a mudiad amgylcheddol A Rocha sy'n genhadaeth o fudiadau sy'n gwireddu galwad Duw arnom i ofalu am y cread mewn modd gweithredol.

### Tŷ Croeso

Asiantaeth leol amlwg yw Tŷ Croeso, sy'n rhoi cartref i fanc bwyd y Trussell Trust yn ogystal â chynnig ystod o wasanaethau cynhaliol i unigolion a theuluoedd bregus yr ardal. Mae Tŷ Croeso wedi bodoli yng Nghlydach ers deuddeng mlynedd bellach ac mae Capel y Nant yn falch o fod wedi cefnogi'r gwaith ar hyd y blynyddoedd. Rhan bwysig o'r gweithgarwch yn neuadd gerllaw – ar wahân i'r paneidiau a'r pice ar y maen – oedd siop ddillad elusen O Law i Law, sy'n perthyn i Dŷ Croeso, a lle'r oedd modd 'swisho' neu gyfnewid dillad yn ogystal â phrynu. Roedd hefyd siop Masnach Deg yn cynnig ystod o gynnyrch.

Dangoswyd lluniau dyfrlliw gan ein diweddar aelod Mr Walford Davies a chafwyd trefniadau cennin Pedr i'n hatgoffa o'n Nawddsant.


### Dyfalbarhau

Yn ystod y chwe awr o groeso agored, galwodd dros 50 o bobl i mewn: rhai'n aelodau yng Nghapel y Nant neu'r eglwys Fethodistaidd, eraill yn aelodau mewn capeli ac eglwysi eraill, ond yn bwysicaf oll, cyfeillion nad oeddent yn aelodau mewn unrhyw eglwys. Ar hyd y dydd cynhaliwyd tri sesiwn o ddefosiwn pum munud wedi'u harwain yn effeithiol gan Fiona, Robat a Dewi a oedd yn goron ar ddiwrnod gwerthfawr o agor drysau a thorri'r gwahanfuriau. Ein her nawr yw parhau i fod yn weithredol yn ein croeso agored yn enw'r Arglwydd Iesu.

**Eurig Davies**

# Y weinidogaeth ddoe a heddiw (7)

Yn yr ail erthygl seiliedig ar Adroddiad y Comisiwn a godwyd gan Gyngor Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ym 1953, gwelwyd cyfeiriad at 'Seiliau Hanesyddol Gweinidogaeth yr Annibynwyr'. Erys y pwyntiau a wnaed yn ddilys, a da o beth yw i ni atgoffa ein hunain o dro i dro o'r graig honno y naddwyd ni ohoni ac o'r egwyddorion hynny y credwn ni sy'n deillio o'r Beibl ac sydd wedi mowldio'n syniadau am natur yr eglwys a'r weinidogaeth.




### Addysg ddiwinyddol

Â'r adroddiad yn ei flaen wedyn i drafod, fel y gwelwyd yn y drydedd erthygl, 'Derbyn a Pharatoi Myfyrwyr Diwinyddol', pwnc sydd wedi codi ei ben eto yn dilyn trosglwyddo'r cyfrifoldeb am addysg ddiwinyddol o Goleg yr Annibynwyr i Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

Cydnabyddir fod y dasg o ddarparu addysg a hyfforddiant diwinyddol safonol a pherthnasol yn un o gerrig sylfaen ein traddodiad Annibynnol, a phan ddywedir mai 'cyfrifoldeb yr eglwysi yw codi a magu gweinidogion,' y cwestiwn anorfod sy'n codi yw, 'Beth sy'n digwydd iddynt wedyn?' Nid yw'r adnoddau gennym ar lawr gwlad i ni fedru dirprwyo'r gwaith hyfforddi i'r cyfundebau, a chan fod pob trafodaeth gydenwadol yn cymryd amser, mae'n debyg mai'r unig ddewis sydd ar ôl i ni yw ein bod yn mentro ymlaen ein hunain. A dyna sy'n digwydd.

Testun llawenydd mawr yw bod y Parchg Carwyn Siddall, Llanuwchllyn, wedi ei benodi ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf yn Gydlynydd Hyrwyddo Gweinidogaethau gan yr Undeb, ac mai rhan o'i gyfrifoldeb yw rhoi sylw neilltuol i'r union bwnc hwn, sef hyfforddiant. Ond hyn sy'n bwysig, nid yn unig ein bod yn cefnogi ei ymdrechion â'n geiriau, ond ein bod hefyd yn rhoi pob cefnogaeth bosibl yn ymarferol iddo. Mae angen i ni wrando ar yr hyn fydd ganddo i'w ddweud wrthym, a dilyn ei arweiniad. Rhaid ymatal rhag codi ein 'baneri Annibynnol' er mwyn i ni fedru osgoi gwaith. Mae datrys clymau'r dasg o fedru darparu addysg ddiwinyddol yn sialens sylweddol, ac mae'n galw am ymdrech a chydweithrediad pob un ohonom, yn unigolion, yn eglwysi ac yn gyfundebau.

### Gweinidogaethau

Yn y bedwaredd erthygl, gwelwyd fod yr adroddiad yn trafod 'Y Weinidogaeth Amser Llawn' ac yn codi cwestiynau dwys am ei dyfodol. Awgryma'r posibilrwydd o gael 'Gweinidogaeth Gynorthwyol', gyda phatrwm oedd yn od o debyg i'r Cynllun Arweinyddion a fabwysiadodd rhai eglwysi yn ein plith yn ystod yn ystod y degawd a aeth heibio. Er hynny, araf fu eglwysi heddiw i fentro arbrofi gyda'u dealltwriaeth o 'weinidogaeth', a gwych o beth oedd clywed Llywydd yr Undeb, y Parchg Beti-Wyn James, yng Nghwrdd Chwarter Cyfundeb Môn yn ystod mis Tachwedd y llynedd, yn annog eglwysi i roi heibio meddwl yn unig am 'weinidog' a meddwl mwy am 'weinidogaeth'.

Dyma'n union y mae angen i ni ei wneud yn awr; meddwl, trafod, archwilio, ymchwilio ac ehangu ein syniad o weinidogaeth fel y byddo'n ymdebygu'n fwy i 'weinidogaeth y doniau', yr un y mae'r Testament Newydd yn sôn amdani, a'r un y gall pob aelod o bob eglwys gyfrannu iddi.

Ni fyddai hynny'n tanseilio dim ar weinidogaeth draddodiadol unigolyn mewn eglwys; yn wir, byddai'n cyfoethogi'r weinidogaeth honno ac yn ei gwneud yn fwy effeithiol, tra ar yr un pryd yn hyfforddi eraill yn y gwaith.

A hynny sydd ei angen.

**Geraint Tudur, Bangor**

Yr Adran Gydenwadol

MAWRTH 16 2023 RHIF 107

## Brecwast Gweddi Senedd Cymru

‘Nid yw Cymru wedi gorffen â ffydd ac nid yw Duw wedi gorffen â Chymru.’ Dyna oedd neges Siân Rees o Gymdeithas y Beibl, wrth iddi annerch yr Aelodau yn y Senedd. Siân oedd y wraig gyntaf i siarad ym Mrecwast Gweddi Senedd Cymru. Myfyriodd ar ffigurau cyfrifiad diweddar 2021 sy’n dangos bod nifer y bobl yng Nghymru sy’n nodi eu bod yn Gristnogion wedi gostwng o 57.6 y cant yn 2011 i 43.6 y cant yn 2021.



‘Roedd rhai’n cymryd bod hyn yn golygu bod Cymru’n troi cefn ar Gristnogaeth,’ meddai Siân. Ond ychwanegodd, ‘Mae bod yn un o ddilynwyr Iesu Grist yn meddu ar ystyr ac arwyddocâd dwfn, ac mewn oes lle gall person uniaethu â chymaint o bethau gwahanol, pam y byddai unrhyw un yn dewis uniaethu fel rhywbeth nad yw’n eu disgrifio’n gywir? Mae proffil crefyddol cenedl yn llawer mwy cymhleth na dim ond tic mewn bocs.’

Wrth fyfyrio ar Ddydd Gŵyl Dewi, siaradodd Siân am bwysigrwydd pererindod. ‘Mae Cymru’n adnabyddus ar draws y byd fel cenedl sydd wedi dod ar draws Duw drwy adfywiadau anhygoel, i filoedd o bobl ddod i adnabod yr Arglwydd Iesu mewn symudiadau rhyfeddol o Dduw,’ meddai wrth Aelodau Senedd Cymru. ‘Yn aml, ymgymerir â phererindodau gydag ymdeimlad o ddisgwyliad o gysylltiad dyfnach â Duw, lle mae’r pererinion yn rhoi gofod iddynt eu hunain i brofi’r mannau tenau hynny lle mae’r bwlch rhwng y nefoedd a’r ddaear yn mynd yn fach iawn neu hyd yn oed ddim yn bodoli.

‘Beth petai pererindod yn ymwneud llai ag ymweld â lle cysegredig, ond yn hytrach yn daith tuag at berthynas bersonol â Duw? Rhaid i bob un ohonom benderfynu drosom ein hunain a ydym am fynd ar daith tuag at berthynas â Iesu ai peidio,’ meddai.

## Brecwast Gŵyl Ddewi Gŵyl Rhinwedd a Moes

Cynhaliwyd Brecwast Gŵyl Ddewi dan nawdd Gŵyl Rhinwedd a Moes yng Nghaffi Beca, Efail-wen, fore Sul, 26 Chwefror, ac roedd yn braf gweld y lle dan ei sang.

Croesawyd pawb ynghyd gan y Cadeirydd, Eurfyl Lewis, cyn i bawb ymuno i ganu’r emyn ‘Dysg i mi garu Cymru’ i gyfeiliant Ceirios Jenner. Cafwyd darlleniad gan y Parchedig Guto Llywelyn a gweddi gan y Parchedig Ken Thomas, ac yna bu pawb yn mwynhau brecwast bendigedig Caffi Beca!

Wedi i bawb gael eu digoni, bu Eurfyl yn cyflwyno’r siaradwraig wadd, sef Mererid Hopwood o Langynnwr, un â’i gwreiddiau’n ddwfn yn nhir Pencaer, sir Benfro. Mae pawb yn gwybod am y ddawn, y brwdfrydedd a’r gallu rhyfeddol sydd gan Mererid i gyfathrebu â cynulleidfa o bob oed, yn arbennig felly ymhlith pobol ifanc. Mae hi wedi annog, dylanwadu ac ysbrydoli cenedlaethau ohonynt ar hyd y blynyddoedd. Yn ogystal â bod yn enillydd prif wobrau llenyddol yr Eisteddfod Genedlaethol, mae’n aelod brwd o Gymdeithas y Cymod ac yn Llywydd Anrhydeddus Cymdeithas Waldo.



Yn y llun gwelir Meryl James (Ysgrifenyddes), Gwenda Mathias (Trysorydd), Y Parchedig Guto Llywelyn, Eurfyl Lewis (Cadeirydd), Ceirios Jenner, Y Parchedigion Ken Thomas ac Eirian Wyn Lewis

Cafwyd anerchiad gwirioneddol wych ganddi, wedi ei gyflwyno yn ei ffordd unigryw, ddihafal ei hun. Bu’n bleser gwrando arni ac roedd cymeradwyaeth frwd a gwresog y gynulleidfa ar y diwedd yn brawf pendant eu bod wedi gwerthfawrogi’r ddarlith yn fawr iawn. Diolchodd Eurfyl iddi’n diffuant am ddod atom. Diolchodd hefyd i Robert a Delyth James a’u staff ymroddgar am baratoi brecwast bendigedig ar ein cyfer; i Meryl James, yr ysgrifenyddes, am gydlynu’r holl drefniadau; i Gwenda Mathias, y trysorydd, am ofalu am yr arian; i Ceirios am gyfeilio; i Guto a Ken am y rhannau arweiniol, ac i’r gynulleidfa am eu presenoldeb a’u cyfraniadau ariannol. Casglwyd swm o £357 tuag at Ymchwil Lewcemia a chyfrannwyd swm o £120 tuag at apêl argyfwng Syria a Twrci.

Ymunodd pawb i ganu’r emyn ‘Dros Gymru’n Gwlad’ ar ddiwedd bore dymunol a bendithiol, a thraddodwyd y fendith gan y Parchedig Eirian Wyn Lewis.

Bu’r brecwast yn arbrawf llwyddiannus iawn a mynegodd nifer o bobol yr awydd i gynnal gweithgaredd tebyg eto’r flwyddyn nesaf.

*Eurfyl Lewis*

# ‘Gwybod y geiriau’ – *Geiriadur y Gair*, Geraint Lewis

Rhaid bod yna beiriant cudd yn llechu yng nghartref Geraint Lewis yn Llangwyryfon cyn ei fod yn llwyddo i droi allan eiriaduron mor swmpus sy’n gaffaeliad i lawer. Yn 2022 ymddangosodd y gyfrol hon, a diolch amdani. Fel y gŵyr y cyfarwydd, byddaf yn cynnal aml i oedfa ar y Sul ac mae cael adnodd fel yma wrth fy mhenelin tra ’mod i’n paratoi yn amhrisiadwy. Gynt, byddwn yn dibynnu i raddau helaeth ar gyfrolau Saesneg a’u cyfieithu, gan nad yw’r trysor ‘Geiriadur Charles’ yn fy meddiant.

Cawn wybodaeth am darddiad teitlau rhai cyfrolau enwog yn y Gymraeg, fel *Dail Pren* Waldo Williams o Lyfr y Datguddiad: “Ar ddwy lan yr afon yr oedd pren bywyd, ac yr oedd dail y pren er iachâd y cenhedloedd”. Hefyd, *O! Tyn y Gorchudd* Angharad Price o Lyfr Exodus: “Pan ddaeth Moses i lawr o Fynydd Sinai gyda dwy lech y dystiolaeth, ni wyddai fod croen ei wyneb yn disgleirio ar ôl iddo siarad â Duw. Pan fyddai’n mynd o flaen yr Arglwydd i siarad ag ef byddai’n tynnu’r gorchudd nes iddo ddod allan.”

O gofio cefndir yr awdur Angharad Price a chynnwys y gyfrol daw emyn mawr Hugh Jones, Maesglasau, i’r cof: “O tyn y gorchudd yn y mynydd hyn ...”

Byddaf bob amser yn edmygu person sy’n medru dyfynnu ymadroddion beiblaidd ac o ganlyniad yn cyfoethogi sgwrs. Ar adegau byddwn yn sôn am gefndir person drwy ddweud iddo fod yn ffyddlon i’w wreiddiau neu i’r graig y’i naddwyd ohoni. Dyma’r adnod gyntaf o Esaia 51: “Edrychwch ar y graig y’ch naddwyd ohoni ac ar y chwarel lle’ch cloddiwyd.”

Gwelwn enghreifftiau addas hefyd sy’n berthnasol iawn i’r dyddiau dreng yma a brofwn ar hyn o bryd. Daw’r adnod o lythyr cyntaf Timotheus, pennod 6 ac adnod 10: “Gwraidd pob math o ddrwg yw cariad at arian.”


Daw ambell ddyfyniad â gwên i’r wyneb ac mae toreth ohonynt yn Llyfr y Diarhebion. Beth am hon? “Fel modrwy aur yn nhrwyn hwch, felly mae gwraig brydferth heb synnwyr.”

Oes, mae yma berlau. Rhai o’m hoff ddywediadau sy’n siarad cyfrolau yw: “Dyn dau-ddyblyg ei feddwl sy’n anwastad yn ei holl ffyrdd.” Mor wir ac yn wers inni i gyd! “Mae enw da yn well na chyfoeth mawr, a charedigrwydd yn well nag arian ac aur.”

Rhaid nad oedd awdur Llyfr y Diarhebion yn or-hoff o ferched, fel y tystia’r adnod hon: “Mae gwraig gecrus yr un fath â diwrnod pan mae hi’n glawio’n ddi-stop. Mae rhoi taw arni fel ceisio stopio’r gwynt rhag chwythu neu ddal olew yn y llaw.”

Mae ei agwedd yn newid tua diwedd y llyfr: “Gwraig sy’n parchu’r Arglwydd sydd yn haeddu cael ei chanmol. Rhowch glod iddi am beth mae wedi gyflawni, a boed i arweinwyr y ddinas ei chanmol am ei gwaith.”

I bawb a fu ac sydd yn Ysgol Tregaron (Ysgol Henry Richard erbyn hyn), cofiwn am yr arwyddair ‘Mewn llafur mae elw’. Oes, mae tarddiad beiblaidd i’r arwyddair hwn, a chofiwn hefyd am emyn mawr y cyn-




Brifathro D. Lloyd Jenkins sy’n cloi fel hyn ac yn pwysleisio neges yr arwyddair:

> Dduw holl bresennol, rhown ein cân
> Yn offrwm gwiw ar d’allor lân,
> A boed holl elw’n llafur ni
> Yn gymeradwy gennyt Ti.

Anogaf unrhyw un i brynu’r gyfrol werthfawr a defnyddiol hon. Gall osgoi llawer o grafu pen a phori wrth chwilio am ddyfyniad beiblaidd addas. Diolch i Geraint Lewis unwaith eto am ei gymwynas fawr.

*Beti Griffiths*

***Geiriadur y Gair / A Biblical Dictionary*, D. Geraint Lewis. Cyhoeddwyd gan Gyhoeddiadau’r Gair, 2022; pris: £9.99. Adolygiad oddi ar www.gwales.com, trwy ganiatâd Cyngor Llyfrau Cymru**

# Mererid Hopwood yn cofio Bruce Kent



Cynhaliwyd seremoni deimladwy yn Finsbury Park, gogledd Llundain, ddydd Sadwrn, 4 Mawrth, i blannu coeden cnau Ffrengig er anrhydedd i Bruce Kent a fu farw fis Mehefin diwethaf. Daeth dros gant o bobl i’r digwyddiad, a drefnwyd gan yr Aelod Seneddol lleol, Jeremy Corbyn.

Ymhlith y rhai oedd yn bresennol yr oedd y Tad Udo Chinedu, Offeiriad Plwyf Sant Mellitus, cynrychiolwyr o Pax Christi, y Parch. Gyoro Nagase o’r Pagodas Heddwch Bwdhaidd, cynrychiolwyr o’r Mudiad dros Ddiddymu Rhyfel, Cymdeithas y Cenhedloedd Unedig, CND a Chyfiawnder a Heddwch San Steffan.

Yn ei haraith agoriadol, disgrifiodd Kate Hudson, Ysgrifennydd Cyffredinol CND, Bruce fel ‘arweinydd aruthrol y mudiad heddwch’. Dywedodd: ‘Roedd Bruce yn siaradwr cyhoeddus ysbrydoledig, yn ffraeth, yn finiog, â gallu rhyfeddol nid yn unig i gyfleu ei farn yn glir ac yn rymus ond i gyfathrebu’n uniongyrchol â phob gwrandawr ar lefel ddynol iawn. Yn wir, nid yn unig yr oedd yn ffigwr cyhoeddus gwych, yr oedd hefyd yn ddyn a chanddo gariad mawr at ddynoliaeth a phenderfyniad i wneud popeth o fewn ei allu i ddod â newid i fywydau pobl ar bob lefel.”

Y siaradwr olaf oedd y bardd Mererid Hopwood, a deithiodd yr holl ffordd i Lundain ar gyfer y digwyddiad, er mwyn cael rhannu ei cherdd hyfryd ‘Apostle of Peace’ wedi’i chyflwyno er cof am Bruce.

# Rhodd Gostus Crist o Gymod

**Cyfres o fyfyrdodau ar gyfer y Grawys gan yr Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (CTBI)**

### Wythnos 4

### 'Cymodi gwlad glwyfedig – dysgu oddi wrth yr Eglwys yn Sri Lanka'

**Ysgrythur:** Rhufeiniaid 8:18–30

### Myfyrdod

'Ein gweddi daer yw y caiff "newid" ei gyflawni drwy ddulliau heddychlon. Galwn am ymdawelu, ymatal ac amynedd ymhlith ein pobl yn y sefyllfa ddirdynnol a bregus hon.' (Datganiad Cyngor Cristnogol Cenedlaethol Sri Lanka, 10 Mai 2022)

Yr wythnos hon, gweddïwn gyda phobl Sri Lanka, ac i gefnogi gwaith Cyngor Cristnogol Cenedlaethol Sri Lanka, ar adeg o ansicrwydd mawr a chyffro gwleidyddol yn y wlad honno. Mae'r CTBI yn cefnogi gwaith Cyngor Cristnogol Cenedlaethol Sri Lanka i ddyfnhau ysbryd o gymod drwy ddefnyddio ffydd fel elfen ganolog i ymgysylltu â gwaddol trais a rhaniadau, a'r anghydraddoldeb sy'n deillio o ganlyniad i hynny sy'n cael effaith niweidiol ar ddyfodol gwleidyddol ac economaidd ansicr.

Mae gan y CTBI a rhai o'r eglwysi sy'n aelodau o'r mudiad berthynas hirhoedlog gyda'r Eglwys yn Sri Lanka. Arferai'r ynys hon, sy'n cynnwys trigolion o sawl hil, fod yn drefedigaeth Brydeinig, ac roedd planhigfeydd helaeth ar gyfer y British East India Company wedi'u lleoli arni. Yn dilyn annibyniaeth, arweiniodd tensiynau ethnig at ddegawdau o wrthdaro treisgar rhwng Llywodraeth Sri Lanka a Theigrod Rhyddid Tamil Eelam, gyda 60,000 o farwolaethau o leiaf. Gwelwyd dadleoli pobl a cham-drin hawliau dynol ar raddfa eang. Fe wnaeth eglwysi ym Mhrydain ac Iwerddon gefnogi gwaith yr Eglwys yn Sri Lanka yn adeiladu heddwch, gan rannu profiadau o'r broses heddwch yn Iwerddon.

Mae ein project cyfredol yn adeiladu ar y gwaith hwnnw gyda ffocws ar ddiwinyddiaeth y wlad. Canolbwynt llawer o'r gwrthdaro yn Sri Lanka yw cwestiynau'n ymwneud â thir. Mae bod heb dir a diffyg hawliau ar eiddo yn rhwystrau sylweddol i gymodi a sicrhau heddwch parhaol. Drwy'r project, mae'r Cyngor Cristnogol Cenedlaethol yn ceisio cefnogi'r Eglwys i ymgymryd â myfyrdod hunan-feirniadol, i roi sylw i'w dallineb a'i methiannau blaenorol, a sicrhau bod ei diwinyddiaeth



yn cysylltu â realaeth bywydau bob dydd pobl, yn enwedig y cymunedau mwyaf bregus sydd wedi cael eu gwthio i'r cyrion. Caiff materion yn ymwneud â hawliau tir a gwrthdaro'n ymwneud â thir eu harchwilio o safbwynt cyfiawnder hinsawdd, cyfiawnder rhywedd a thrawsnewid gwrthdaro, gan nodi'r pwyntiau cyswllt niferus rhwng y themâu hyn.

Drwy gydol 2022, wrth i argyfwng gwleidyddol ac economaidd y wlad waethygu, fe aeth Cyngor Cristnogol Cenedlaethol Sri Lanka ati i gyflwyno nifer o ymyriadau. Cydnabu arweinwyr eglwysig fod yr ifanc wedi bod â rhan sylweddol yn y gwaith o ysgogi ac arwain y mudiad dros newid, a'u bod yn wynebu peryglon mawr o ran eu diogelwch:

Fe wnaethon nhw alw am ffurfio llywodraeth hollbleidiol "er mwyn i bawb allu byw fel dinasyddion gyda chydraddoldeb ac urddas" (Cyngor Cristnogol Cenedlaethol Sri Lanka, 20 Gorffennaf 2022). Ar lefel cymunedau lleol, fe roddon nhw bwyslais arbennig ar arweinyddiaeth gan fenywod, a threfnwyd cynhadledd genedlaethol a ddaeth â menywod o wahanol gefndiroedd ynghyd o dan y thema 'Dagrau ym mharadwys a'r angen i sefyll gyda'n gilydd'. Roedd hon yn ffordd o gydnabod fod yna ddioddefaint dwfn yn llechu o fewn prydferthwch tirwedd Sri Lanka na ellir ei wella ond drwy ddod â chymunedau ynghyd.

Yn 2023 y prif ffocws fydd cofnodi 200 mlynedd o bresenoldeb cymuned y blanhigfa, cymuned o bobl a gludwyd i Sri Lanka gan yr awdurdodau Prydeinig i weithio yn y planhigfeydd coffi a the. Mae'r Cyngor Cristnogol Cenedlaethol yn gweithio i amlygu cyfraniad y gymuned hon at economi Sri Lanka a'r genedl gyfan, a'r un pryd hefyd yn ceisio amlygu'r heriau a wynebant heddiw – yn byw heb gartrefi neu gyfeiriadau post, yn gweithio am lai na chyflog byw. Drwy weddi ac addoliad, byddant yn ceisio creu cyfleoedd ar gyfer tystio, cydsefyll ac edifeirwch.

Mae adnodau'r wythnos hon o'r Ysgrythur yn ein hatgoffa bod Duw yn bresennol yng nghanol ein dioddefaint, gan gadw addewid cymod o'n blaenau. Gweddïwn y bydd Duw yn bendithio ymdrechion Cyngor Cristnogol Cenedlaethol Sri Lanka wrth iddo geisio tywys a chefnogi pobl drwy'r amseroedd heriol hyn.

### Cwestiynau

- Beth allwn ni ei ddysgu gan ymagwedd arweinwyr eglwysig yn Sri Lanka tuag at derfysg gwleidyddol a bygythiadau i ddemocratiaeth?
- Cafodd arweinwyr eglwysig yn Sri Lanka eu hysbrydoli gan bobl ifanc yn eu protestiadau dros newid ac maent wedi eu cefnogi'n gyhoeddus. A welwch chi gefnogaeth debyg i ymgyrchwyr ifanc yn eich eglwys?
- Ydych chi'n teimlo fod yr Eglwys yn ddigon uchel ei chloch wrth leisio barn ar fygythiadau i ddemocratiaeth o fewn eich cyd-destun?

### Camau Gweithredu

- Ewch i wefan Cyngor Cristnogol Cenedlaethol Sri Lanka (NCCSL) neu dilynwch nhw yn y cyfryngau cymdeithasol er mwyn cael eich diweddaru ynglŷn â'u gwaith. Rhannwch yr hyn rydych yn ei ddysgu ag eraill er mwyn codi ymwybyddiaeth.
- Ceisiwch ddod o hyd i ffyrdd o ddefnyddio enghraifft Sri Lanka, a gwaith Cyngor Cristnogol Cenedlaethol Sri Lanka, i ddechrau sgyrsiau am waddol gwladychu a chaethwasiaeth a'r ffyrdd ymarferol y gall yr Eglwys hybu gwella a chymod.
- A allech chi gynnwys gweddïau dros Sri Lanka fel rhan o'ch addoliad ar wahanol adegau yn ystod y flwyddyn er mwyn cefnogi'r gwaith a wneir gan Gyngor Cristnogol Cenedlaethol Sri Lanka?

### Gweddi

Dduw cariadus,
Gweddïwn dros bobl Sri Lanka
wrth iddyn nhw weithio i wella clwyfau
anghyfiawnder canrifoedd.
Rho i eglwysi Sri Lanka
yr hyder i aros ar y daith hon gyda'i gilydd,
drwy Gyngor Cristnogol Cenedlaethol Sri Lanka,
a gweithio mewn partneriaeth a chyfeillgarwch
gyda chymunedau ffydd eraill.
Boed i ni gael ein hysbrydoli drwy ddod â phobl
o ffydd, merched ac ieuenctid o wahanol gefndir ynghyd,
i wneud safiad dewr
dros gyfiawnder a dyfodol gwell.
Helpa ni weld mai'r unigolion a'r cymunedau yn Sri Lanka
y gwadwyd eu hawliau a'u hurddas
yw ein cymdogion
ac i dderbyn ein cyfrifoldeb
i helpu i adfer yr hyn a gymerwyd oddi wrthyn nhw. Amen.

S4C *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 19 Mawrth, am 7.30yh**
Mae'n Sul y Mamau, diwrnod penodol o ddiolch a dathlu cyfraniad mamau. Bydd Ryland yn ein harwain drwy'r rhaglen o dref hyfryd Dinbych-y-pysgod, a chawn glywed hanes gwreiddiau'r Sul arbennig yma.

BBC radio cymru *Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 19 Mawrth, am 7:30yb a 4:30yp**
Rob Nicholls yn cyflwyno emynau o Gymanfa Westminster 2022

**Sul, 19 Mawrth, am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Meinir Ffransis

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru
(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

# Gair yn ei bryd

Hed amser, ond nid mor gyflym â hynny. Wedi darllen yr erthygl yn ystod yr wythnos, mae'n debyg nad fi oedd yr unig un a drodd at y dyddiadur. Trafod dadleuon o blaid ac yn erbyn Amser Haf Prydain oedd yr *Yorkshire Post* gan ddweud fod yr amser wedi dod i droi'r clociau unwaith eto. Minnau'n dychryn o glywed hynny cyn sylweddoli bod rhywun yn amlwg wedi gwneud cawl o bethau a chyhoeddi'r erthygl fis yn rhy gynnar. Mae perffaith ryddid i drafod y mater hwn unrhyw bryd wrth gwrs, ond yn naturiol ceir mwy o drafod arno cyn troi'r clociau ddwywaith y flwyddyn.



Rhywsut, roedd yr erthygl hon yn llai gwerthfawr am ei bod mor anamserol, a hynny wrth gwrs yn eironig iawn o gofio'r testun. Does fawr o bwrpas ein hannog i gofio troi'r clociau fis cyfan o flaen llaw. I fod o werth, mae'n rhaid i rybudd fod yn ei bryd. Caiff arwydd ffordd sy'n rhybuddio rhag tro drwg neu allt serth ei osod yn agos at y rhwystr gan na fyddai o fawr werth filltiroedd i ffwrdd. O gael y rhybudd yn rhy fuan byddem wedi anghofio am y rhwystr; o'i gael yn rhyw hwyr ... gallai fod yn rhy hwyr!

Gair yn ei bryd ydi Efengyl Iesu Grist: newyddion da perthnasol ac amserol. Nid bod pawb yn ei gweld felly wrth gwrs: i rai, mae'r neges am Iesu Grist a'i farwolaeth a'i atgyfodiad yn gwbl amherthnasol. Felly hefyd bob sôn am Dduw, a phob gwahoddiad a rhybudd sy'n rhan o'n Ffydd. Ond i eraill, nid amherthnasol ond anamserol yw'r gwahoddiad a'r rhybudd. O bosib bod yna werth i'r Efengyl; o bosib bod gan Iesu Grist rywbeth i'w gynnig; ac o bosib bod yna rybudd y dylid cymryd sylw ohono, ond nid ar hyn o bryd. Rhywbryd eto o bosib. Felly'n union y meddyliai'r person a ddywedodd – o glywed am y lleidr edifeiriol ar y groes – y gallai yntau fyw heb Dduw a throi ato ar ei wely angau pe dymunai. A dyna hefyd agwedd y gweinidog a ddywedodd ers talwm wrth ffrind i mi y byddai hen ddigon o amser i roi sylw i bethau'r Ffydd pan fyddai'n hŷn. Rhywbryd eto o bosib!

Gair yn ei bryd yw gwahoddiad a rhybudd yr Efengyl. O ddeall hynny, ac o ymateb yn gadarnhaol i'w galwad cawn brofi'r hedd a'r llawenydd a'r gobaith sy'n rhan o'r bywyd newydd a geir trwy ffydd yng Nghrist. Po hwyaf yr oedwn wrth ymateb, mwyaf fydd ein colled gan mai'r bywyd hwn yng Nghrist yw bywyd ar ei lawnaf ac ar ei orau. Ond gwaeth na hynny, gall gwrthod y gair yn ei bryd olygu colli'r cyfan.

Ŵyr neb beth a ddigwydd mewn un dydd nac un eiliad, a gall fod na ddaw cyfle arall i ymateb i alwad yr Efengyl. Gall gwrthod ymateb neu oedi rhag gwneud hynny olygu colli'r cyfle olaf i dderbyn maddeuant Duw a'r bywyd tragwyddol sydd trwy ffydd yn Iesu Grist.

**John Pritchard**

(allan o'r *Gronyn*, cylchgrawn gofalaeth fro'r Llechen Las, rhif 972, 26 Chwefror 2023)

## UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Dyddiadau i'w nodi

**Cyfarfodydd Blynyddol 2023**
**Cyfundeb Dwyrain Dinbych a Fflint**
**brynhawn Mercher, 28 Mehefin hyd brynhawn Gwener, 30 Mehefin**

Cynhelir y cyfarfodydd eleni, dan lywyddiaeth y Parchg Beti-Wyn James, yn Y Stiwt, Rhosllannerchrugog gan ymweld â Chapel y Groes, Wrecsam ar gyfer yr Oedfa o Fawl.

Y mae'n llawenydd datgan bod y paratoadau yn mynd rhagddynt yn dda ac yr ydym eisoes mewn dyled i gyfeillion caredig y cyfundeb am eu hymrwymiad i'r dasg o drefnu. Diolch.

### Rhagflas o'r Rhaglen

Llywydd: Y Parchg Beti-Wyn James

Myfyrdodau Beiblaidd: Y Parchg Aled Lewis Evans

Gwestai'r darpar-Lywydd: Yr Athro Anthony Reddie, Rhydychen

Pregethwr: Y Parchg Iwan Llewelyn Jones

Cyfarfod Heddwch: Mr Mabon ap Gwynfor AS

Cyfarfod Hanes: Mr Gareth Ffowc Roberts

**Daw manylion a ffurflenni bwyd a llety atoch yn fuan.**

### Penderfyniadau 2023
### Cyfarfodydd Blynyddol Cyfundeb Dwyrain Dinbych a Fflint, 28–30 Mehefin

Bydd cyfle i gyflwyno penderfyniadau i'r Gynhadledd a dylai rhybudd o bob penderfyniad, wedi ei lofnodi gan y cynigydd a'r eilydd, gyrraedd yr Ysgrifennydd Cyffredinol erbyn **dydd Llun, 15 Mai 2023, fan pellaf**.

### Y Rhaglen Arloesi a Buddsoddi

Dyddiad cau cyflwyno ceisiadau am nawdd y rhaglen uchod yw 28 Ebrill, eleni.

Barn Annibynnol

# Ble mae'n SatNav moesol ni heddiw?



Mae angen cwmpawd moesol ar Gristnogion! Neu, i fod yn fwy cyfoes, mae angen GPS/SatNav dibynadwy arnom. Mae'r rhain nid yn unig yn dweud wrthym ble rydym ni a pha mor bell ydyn ni o'n nod. Maent yn dweud wrthym hefyd am bob tro i'r chwith neu'r dde y dylem ei gymryd a phryd y dylem ei gymryd. Yn bwysicach fyth, maent yn dweud wrthym pan fyddwn wedi mynd y ffordd anghywir a sut y dylem gywiro ein hunain.

Mae cwmpawd neu SatNav moesol yn rhoi arweiniad i ni am y ffordd yr ydym yn byw ein bywyd a'r newidiadau y dylem ni – a'r byd o'n cwmpas – fod yn eu gwneud. Felly'r cwestiwn allweddol yw: ble y down o hyd i'r cwmpawd moesol hwn fel Cristnogion heddiw?

## 'Byddwch yn sanctaidd'

Yn ôl Lefiticus, sancteiddrwydd Duw yw'r allwedd: 'Byddwch yn sanctaidd oherwydd yr wyf fi, yr Arglwydd eich Duw, yn sanctaidd'. Dyna'r egwyddor gyntaf: sancteiddrwydd. Nid perffeithrwydd, nid 'bod yn saint' yn yr ystyr draddodiadol, ond byw mewn ymwybyddiaeth gyson o Dduw yn ein bywydau. Sut y gall ein bywydau adlewyrchu sancteiddrwydd Duw? Mae Lefiticus yn manylu ar hyn. Fel enghraifft, 'Peidiwch â chodi lloffion eich cynhaeaf neu rawnwin y gwnaethoch eu methu y tro cyntaf. Gadewch nhw i'r tlawd a'r estron.' Sut y gall cynhyrchu a darparu ar gyfer anghenion dynol – neu ei roi mewn termau eraill – sut y gall busnes a masnach yn ein cymdeithas ac o gwmpas y byd – adlewyrchu'r egwyddor hon o gofio'r tlawd a'r estron? Rhaid i sancteiddrwydd gael ei weithredu yn ein byw gydag eraill ar draws y byd.

A sylfaen hyn oll yw'r hyn a wyddom ac a gredwn am Dduw. Drosodd a thro dywedir wrthym yn Lefiticus, 'Myfi yw'r Arglwydd!' Os credwn fod Duw yn Arglwydd – ac fel Cristnogion, credwn mai Duw yn Iesu yw ein Harglwydd a'n Gwaredwr – yna mae'n rhaid i'n bywyd a'n hymddygiad adlewyrchu'r ffydd a'r gred honno. 'Byddwch sanctaidd *oherwydd yr wyf fi, yr Arglwydd, yn sanctaidd.'*

## 'Carwch eich gelynion'

Mae dysgeidiaeth Iesu yn Y Bregeth ar y Mynydd yn dyfnhau'r egwyddor hon: Dim dial – trowch y foch arall; os cewch eich gorfodi i fynd un filltir (gan filwr Rhufeinig, fel enghraifft) ewch yr ail filltir; carwch eich gelynion nid eich cymydog yn unig; gweddïwch dros y rhai sy'n eich erlid. Pam? 'Byddwch berffaith *oherwydd bod eich Tad nefol yn berffaith.'*

## Egwyddor haelioni

Mae Iesu, a roddodd ei hun dros eraill ar y groes, yn ein galw i fyw dros eraill, i fyw bywyd moesol sy'n rhoi eraill yn gyntaf. Golyga hyn mai sylfaen y bywyd Cristnogol (ac felly ein moesoldeb Cristnogol a'n ffordd o fyw), yw haelioni. Dyma'r cliw, dwi'n meddwl. Rhaid i mi ystyried, yn fy mherthynas ag eraill, yr haelioni a'r cariad sydd wrth wraidd gras Duw a ddangoswyd inni yn Iesu. Sut y gallaf ymddwyn yn hael tuag at eraill, pwy bynnag ydynt ac adlewyrchu, yn fy mywyd, gariad hael Duw yn Iesu?


Os ydym am gymryd yr egwyddor hon o haelioni o ddifri, sut mae'n effeithio ar ein ffordd o fyw, ein hagwedd at eraill a'n hymagwedd at yr hyn sy'n digwydd yn y byd o'n cwmpas? Po fwyaf yr anghydraddoldeb ac anghyfiawnder y deuwn ar eu traws, y mwyaf anodd yw hi i ragweld sut y byddai byd sydd wedi'i adeiladu ar haelioni yn edrych! Po fwyaf treisgar y daw'r byd, yr anoddaf yr ymddengys i ail-lunio'r byd mewn heddwch a chymod, addfwynder a haelioni. Mewn argyfwng costau byw, rhaid datblygu polisïau cenedlaethol hael a chyfiawn i bawb. Pan mae ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn ceisio dechreuad newydd yma a llawer yn ein plith yn ymddwyn mewn ffordd nad yw'n groesawgar a'r Llywodraeth Brydeinig yn dal i obeithio gallu anfon llawer ohonynt yn ôl i'r lle y daethant, rhaid dangos haelioni gyda chyfiawnder a diogelwch. Ar adeg o ryfel a gwrthdaro, yn Wcráin a mannau eraill, rhaid dangos haelioni tuag at eraill nid mewn arfau ond o gwmpas byrddau trafod rhyngwladol sy'n ceisio heddwch a chymod. Pan fo'r ddaear gyfoethog hon dan fygythiad ecolegol, rhaid byw'n hael tua'r amgylchfyd o'n cwmpas. Wyneb yn wyneb â thrychinebau naturiol, rhaid dangos haelioni, cydraddoldeb a thegwch mewn ymatebion rhyngwladol i'r argyfyngau brys hyn.

## Dechrau gyda mi

Mae'r rhain yn heriau bron yn amhosib eu gweithredu'n effeithiol, ond maen nhw'n dechrau gyda mi! Mae haelioni wedi'i wreiddio yng nghariad Duw yn Iesu ac mae'n rhaid iddo ddechrau gyda'm haelioni i! 'Byddwch sanctaidd, byddwch gariadus, byddwch groesawgar, byddwch agored, byddwch hael, oherwydd myfi yw'r Arglwydd a myfi, yr Arglwydd, wyf sanctaidd!'

**Noel Davies**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)



*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* aluntudur@btinternet.com

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Dathlu Gŵyl Dewi

Roedd hi'n braf gweld cynulleidfa dda wedi ymuno i ddathlu dydd ein nawddsant, Dewi. Gwasanaeth gan blant ac ieuenctid y capel a gafwyd wedi'i drefnu gan Marie-Lynne, a diolch iddi. Pleser oedd gwrando ar y cyfraniadau. Cafwyd unawdau, adroddiadau, darlleniadau, eitemau offerynnol, cyflwyniad fideo a chwis am ddyddiadau arbennig yn hanes ein gwlad. Lluniwyd hyn gan Meinir Jones, un o athrawon gweithgar yr ysgol Sul. Dysgwyd llawer trwy'r cwis gan yr holl aelodau a llongyfarchiadau i dîm Candelas!

Mae blwyddyn bellach wedi pasio ers dechrau'r rhyfel erchyll yn Wcráin. Yn ystod y gwasanaeth cafwyd munud o dawelwch i gofio a myfyrio am sefyllfa drychinebus y wlad a gweddïo am heddwch. Flwyddyn yn ôl, cyfansoddwyd cerdd gan Delyth Mai, 'Gweddi Dros Wcráin'. Gosodwyd y gerdd i gerddoriaeth gan Eric Jones ein horganydd a chafwyd perfformiad teimladwy gan Siân Howells. Fore Mercher, 1 Mawrth, tro aelodau'r Clwb Babanod oedd hi i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Hyfryd oedd gweld nifer o neiniau a theidiau wedi galw i mewn am ddisgled, pice ar y maen a bara brith. I orffen ein dathliadau, roedd y festri dan ei sang am noson o gawl a chân. Diolch i Gwenda, Anita a'r tîm am baratoi gwledd o gawl a phastai ac i Leisiau Lliw am yr adloniant.






## Diacon newydd

Ar fore Sul, 5 Chwefror, yn ystod y gwasanaeth cymun, derbyniwyd Gareth Williams yn ddiacon yng nghapel Hope-Siloh, Pontarddulais. Dymunwyd pob bendith iddo gan ein gweinidog wrth iddo ymgymryd â'i ddyletswyddau newydd o fewn bywyd y capel.

**Jennifer Clark**

# Saron Creunant

Ar ddechrau mis Mawrth, fe ddathlwyd dydd ein nawddsant yn Saron Creunant yn ystod ein hoedfa gymunedol. Fel rhan o'r oedfa, fe ddaeth unigolion ymlaen i ganu ac adrodd, gan gynnwys grŵp o wragedd 'Caffi Cymraeg' y pentref (pob un yn aelod yn Saron).

Cafwyd amser o lawenydd yn Ei Gysegr, ac yn ôl yr arfer, pice ar y mân blasus a disgled yn y festri! 'Dyn da oedd Dewi!'

**William Rhys Locke**





*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*